Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Springholme Care Anglesey Ltd**

**Springholme**
**Traeth Coch**
**Pentraeth**
**LL75 8EX**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

22/11/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Springholme Care Anglesey Ltd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | SPRINGHOLME CARE ANGLESEY LTD |
| Lleoedd cofrestredig | 45 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 17 Awst 2023 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Nid yw'r gwasanaeth yn cael ei oruchwylio na'i reoli'n effeithiol gan yr Unigolyn Cyfrifol. Mae angen gwella mesurau sicrhau ansawdd o hyd gan ein bod yn dal i weld yr un methiannau â'r ddau arolygiad blaenorol sy'n dangos bod diffyg goruchwyliaeth dros y gwasanaeth a diffyg ymwybyddiaeth o ofynion y rheoliadau a phrosesau diogelu. Penodwyd rheolwr newydd sy'n gymwys, ond sydd â diffyg profiad a gwybodaeth i reoli'r cartref. Mae rheolwr profiadol ychwanegol yn cefnogi'r tîm rheoli yn rhan-amser. Mae angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod digon o staff ar ddyletswydd i oruchwylio'r bobl a sicrhau eu bod yn ddiogel.

Mae angen gwella'r gweithdrefnau diogelu yn y cartref. Mae methiant parhaus gan y darparwr i sicrhau bod y bobl yn cael eu diogelu rhag niwed ac nid yw'n sicrhau bod asesiadau gofal a risg ar waith ar gyfer y bobl a gaiff eu hadolygu ar ôl digwyddiad. Nid yw'r staff wedi cwblhau'r holl hyfforddiant gofynnol mewn perthynas â Diogelu, y Ddeddf Galluedd Meddyliol a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid er mwyn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth iddynt i gefnogi'r bobl yn effeithiol ac yn ddiogel.

Mae gwaith ar y gweill i wella cynlluniau personol a dogfennaeth gofal er mwyn sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar yr unigolyn, ond mae hyn ar gamau cynnar iawn ar hyn o bryd. Rydym yn dal i weld gwybodaeth anghyson ac nid yw gwybodaeth yn adlewyrchu anghenion presennol y bobl bob amser.  Nid yw aelodau allweddol o'r staff yn cael amser ychwanegol i gwblhau'r tasgau hyn. Ni weithredir ar gamau a nodir gan weithwyr proffesiynol bob amser ac rydym yn parhau i weld cwympiadau a digwyddiadau nad oedd neb yn dyst iddynt ac enghreifftiau lle na chaiff y prosesau diogelu cywir eu dilyn.

## Llesiant

Nid oes gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd bob amser er mwyn eu cadw'n ddiogel rhag niwed. Gwelsom fod y bobl yn gartrefol ac yn gyfforddus gyda'r staff gofal sy'n eu cefnogi; caiff y bobl eu trin mewn ffordd gwrtais a charedig. Gwelsom gydberthnasau cadarnhaol a chynhesrwydd rhwng y staff a'r bobl sy'n byw yn y cartref. Mae'r staff gofal yn gweithio'n galed ond nid oes digon o staff bob amser, yn enwedig yn ystod y nos ac ar y penwythnos, i ddiwallu anghenion y bobl yn effeithiol. Cyflogir swyddog gweithgareddau llawn amser yn y cartref sy'n darparu ystod o weithgareddau cyffrous ac mae hefyd yn helpu gyda dyletswyddau gofal pan fydd prinder staff.

Nid yw anghenion corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol y bobl bob amser yn cael eu diwallu. Mae'r cofnodion gofal yn anghyflawn, ac nid ydynt yn adlewyrchu anghenion gofal y bobl, ond mae gwelliannau ar y gweill. Nid eir i'r afael â chyngor gan weithwyr proffesiynol mewn modd amserol bob amser. Gwelsom achosion pan na ddigwyddodd hyn a lle nad yw gwybodaeth gan weithwyr proffesiynol allanol wedi cael ei chyfleu'n effeithiol i'r staff gan y tîm rheoli sydd wedi rhoi'r bobl mewn perygl o niwed. Mae'r gweithwyr gofal yn darparu cymorth corfforol ac emosiynol mewn ffordd sy'n dangos urddas a pharch.

Nid yw'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth a niwed bob amser. Nid yw'r polisi diogelu yn cynnwys y wybodaeth berthnasol yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan ac nid yw'r staff yn gwybod pa faterion y mae angen rhoi gwybod amdanynt mewn perthynas â diogelu. Ni chaiff atgyfeiriadau diogelu eu gwneud bob amser pan fydd pobl yn wynebu risg bosibl o niwed. Ni chaiff canlyniadau ymchwiliadau diogelu na phryderon eu cofnodi, ac nid eir ati i fyfyrio arnynt. Nid yw pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant i adnabod arwyddion camdriniaeth.

Ni all y bobl fod yn hyderus y caiff risgiau i'w hiechyd a'u diogelwch eu nodi'n brydlon a'u blaenoriaethu. Nid oes digon o staff ar ddyletswydd yn y gwasanaeth bob amser i oruchwylio'r bobl y mae angen mwy o waith monitro arnynt oherwydd ymddygiadau a all fod yn heriol neu bobl sy'n wynebu risg uchel o gwympo neu anafu eu hunain. Mae angen gwneud gwelliannau o hyd i sicrhau bod asesiadau risg o gwympiadau ar waith, y cânt eu hadolygu ar ôl i unigolyn gwympo ac y cymerir camau i liniaru unrhyw gwympiadau a damweiniau pellach er mwyn amddiffyn y bobl rhag niwed. Ni chaiff matiau llawr synhwyraidd neu gyfarpar arall eu gosod mewn modd amserol.

## Gofal a Chymorth

Yn y ddau arolygiad diwethaf, gwnaethom roi gwybod i'r darparwr fod angen gwella cynlluniau personol a dogfennaeth gofal er mwyn adlewyrchu anghenion presennol y bobl. Yn ystod yr arolygiad hwn, ychydig iawn o welliannau a welwyd. Mae cynlluniau ar waith i adolygu ffeiliau gofal y bobl ac mae hyn ar gam cynnar iawn. Roedd y cynlluniau personol a welsom yn gyffredinol ac nid oeddent yn adlewyrchu anghenion presennol y bobl bob amser. Nid oedd dau o'r tri chynllun gofal a welsom bob amser yn cynnwys gwybodaeth am anghenion cymorth y bobl na'r ffordd orau o'u diwallu. Gwelsom fod y wybodaeth yn y cofnodion gofal yn anghyson ac nad oeddent bob amser yn adlewyrchu anghenion presennol y bobl na'r gofal a'r cymorth roeddent yn eu cael. Nid oes cynlluniau cefnogi ymddygiad yn gadarnhaol ar waith o hyd er mwyn i'r staff helpu'r bobl i reoli eu hemosiynau a'u hymddygiadau. Mae hyn yn parhau i gael effaith ar iechyd a llesiant y bobl, ac yn peri risg iddynt. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth, byddwn yn cymryd camau gorfodi.

Caiff y bobl eu gweld gan y tîm meddygol mewn modd amserol ar y cyfan, ond gwelsom sawl achos pan nad oedd hyn yn wir. Nid oedd cyngor gan weithwyr proffesiynol mewn perthynas ag atgyfeirio at y Therapydd Lleferydd ac Iaith yn cael ei raeadru i'r staff ac felly nid oes camau wedi cael eu cymryd sy'n golygu bod risg o allsugno. Ni chysylltwyd â'r nyrs ardal mewn perthynas â briwiau pwyso mewn modd amserol. Nid yw pwysau un person wedi cael ei reoli'n effeithiol, fel y cofnodir yn ei gynllun personol.  Mae hyn yn parhau i gael effaith ar iechyd a llesiant y bobl, ac yn peri risg iddynt. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth, byddwn yn cymryd camau gorfodi.

Mae angen gwella'r prosesau sydd ar waith i ddiogelu'r bobl y maent yn eu cefnogi ac yn gofalu amdanynt o hyd. Nodwyd meysydd i'w gwella yn y ddau arolygiad diwethaf er mwyn cadw'r bobl yn ddiogel, ac ychydig o welliant a welir o hyd. Nid yw pob aelod o'r staff, gan gynnwys yr unigolyn cyfrifol, wedi cwblhau hyfforddiant ym meysydd Diogelu, Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol. Roedd hyfforddiant wedi cael ei drefnu gan yr Awdurdod Lleol, ond cafodd y sesiwn gyntaf ei chanslo am nad oedd y rheolwr blaenorol wedi cofnodi dyddiadau'r hyfforddiant yn y dyddiadur ac ni chafodd sesiynau pellach eu mynychu'n llawn gan y staff oherwydd bod prinder staff. Nid yw'r polisi diogelu yn adlewyrchu deddfwriaeth yng Nghymru na gweithdrefnau diogelu lleol. Mae angen gwneud gwelliannau o hyd mewn perthynas â rhoi asesiadau risg o gwympiadau ar waith a'u hadolygu ar ôl i unigolyn gwympo, ac i sicrhau bod y staff yn dilyn y gweithdrefnau diogelu cywir wrth roi gwybod am ddigwyddiadau. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

## Yr Amgylchedd

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae angen cryfhau systemau a phrosesau i sicrhau yr ymdrinnir â risgiau i iechyd a diogelwch y bobl. Mae system clychau galw newydd bellach wedi cael ei gosod sy'n cefnogi cyfarpar ychwanegol fel matiau llawr synhwyraidd a fydd yn rhybuddio'r staff pan fydd pobl yn wynebu risg uchel o gwympo. Gwelsom achosion lle nad oedd cyfarpar synhwyraidd wedi cael ei osod mewn modd amserol a oedd yn golygu bod y bobl yn dioddef cwympiadau nad oedd neb yn dyst iddynt o hyd. Mae angen rhoi systemau a threfniadau goruchwylio priodol ar waith er mwyn sicrhau y caiff risgiau eu nodi'n briodol ac y cymerir camau prydlon i liniaru risgiau o gwympo a sicrhau bod y bobl yn ddiogel. Pan wnaethom gyrraedd, cawsom ein cyfarch gan weithwyr allanol a gynigiodd y cod allwedd i ni cyn cynnig agor y drws ffrynt. Gwnaethom siarad â'r rheolwr a aeth i'r afael â hyn yn ystod yr arolygiad. Mae hyn yn parhau i gael effaith ar iechyd a llesiant y bobl, ac yn peri risg iddynt. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth, byddwn yn cymryd camau gorfodi.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol wedi gallu dangos bod rheolaeth, ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaeth yn cael eu goruchwylio'n briodol. Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol wedi mynd i'r afael â'r materion difrifol a nodwyd gan AGC a gweithwyr proffesiynol eraill mewn perthynas â dilyn gweithdrefnau diogelu a chwympiadau, ac ni chaiff mesurau eu rhoi ar waith i adolygu, gwerthuso a dysgu gwersi fel rhan o'r prosesau sicrhau ansawdd. Mae cadw cofnodion a diffyg cyfranogiad y bobl a'u perthnasau yn y broses cynllunio gofal yn feysydd sy'n peri pryder nad yw'r Unigolyn Cyfrifol wedi mynd i'r afael â nhw. Nodwyd meysydd newydd sy'n peri pryder yn yr arolygiad hwn mewn perthynas â gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, hyfforddiant y staff a'r lefelau staffio. Mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi nodi'r materion hyn na mynd i'r afael â nhw.  Mae hyn yn parhau i gael effaith ar iechyd a llesiant y bobl, ac yn peri risg iddynt. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth, byddwn yn cymryd camau gorfodi.

Yn ystod y ddau arolygiad diwethaf, gwnaethom gyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth am nad oedd trefniadau ar waith i fonitro, adolygu na gwella ansawdd y gwasanaeth. Er bod rhai gwelliannau wedi'i gwneud yn yr arolygiad hwn (mae dau adroddiad ar yr adolygiad o ansawdd y gofal wedi cael eu llunio), nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos bod safbwyntiau'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, teuluoedd, cynrychiolwyr, staff na gweithwyr proffesiynol eraill wedi'u ceisio. Nid yw'r adroddiadau yn cynnwys unrhyw dystiolaeth o ddadansoddi materion diogelu, cwynion na hysbysiadau, felly nid oes unrhyw wersi a ddysgwyd na chamau i wella ansawdd y gwasanaeth. Mae hyn yn parhau i gael effaith ar iechyd a llesiant y bobl, ac yn peri risg iddynt. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth, byddwn yn cymryd camau gorfodi.

Ni sicrheir bod y lefelau staffio yn ddigonol bob amser er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael eu goruchwylio a'u bod yn ddiogel. Mae rotas y staff yn dangos y defnyddir lefelau staffio llai, yn enwedig yn ystod y nos ac ar y penwythnos. Nid oes unrhyw staff domestig yn gweithio ar y penwythnos ac mae'r swyddog gweithgareddau yn helpu gyda dyletswyddau gofal. Mae risg uchel y bydd rhai o'r preswylwyr yn cwympo ac mae angen gwylio rhai eraill yn ofalus. Ni chaiff amser ychwanegol ei neilltuo i aelodau allweddol o'r staff wneud eu gwaith gan eu bod yn cyflenwi ar gyfer y prinder staff. Mae nifer uchel o gwympiadau heb neb yn dyst iddynt o hyd. Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol wedi nodi bod angen trefniadau staffio digonol er mwyn amddiffyn y bobl sy'n byw yn y cartref. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Yn ystod yr arolygiad diwethaf, nodwyd gennym fod angen gwella'r ffordd y mae'n rhoi gwybod am ddigwyddiadau i'r rheoleiddiwr. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom nad oedd unrhyw welliannau wedi'u gwneud. Rydym yn parhau i weld nad yw AGC wedi cael gwybod am bob digwyddiad adroddadwy bob amser nac o fewn yr amserlen benodedig sy'n

effeithio ar lesiant y bobl ac ymdrechion i redeg y gwasanaeth yn hwylus. Mae hyn yn parhau i gael effaith ar iechyd a llesiant y bobl, ac yn peri risg iddynt. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth, byddwn yn cymryd camau gorfodi.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 35 | Mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi methu â rhoi gwybod i'r cyrff proffesiynol perthnasol pan na fydd person yn addas i weithio yn y gwasanaeth mwyach. Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol roi gwybod i'r corff proffesiynol perthnasol a'r rheoleiddiwr pan na fydd person yn addas i weithio yn y gwasanaeth mwyach. | Newydd |
| 26 | Nid oes gan y staff na'r Unigolyn Cyfrifol ddigon o wybodaeth ac nid ydynt yn goruchwylio digwyddiadau yn y gwasanaeth yn ddigonol i ddiogelu'r bobl mewn modd cadarn. Rhaid i'r staff a'r Unigolyn Cyfrifol gwblhau hyfforddiant ym maes diogelu er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o Weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan. | Newydd |

| | | |
|---|---|---|
| 36 | Nid yw pob aelod o'r staff, gan gynnwys yr Unigolyn Cyfrifol, wedi cwblhau hyfforddiant ym meysydd Diogelu, y Ddeddf Galluedd Meddyliol a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Rhaid i bob aelod o'r staff gwblhau hyfforddiant ar y pynciau hyn er mwyn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau i ofalu am y bobl mewn modd diogel. | Newydd |
| 34 | Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau bod niferoedd digonol o staff yn gweithio yn y gwasanaeth i ddiwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolion. Rhaid i'r darparwr sicrhau bod digon o staff ar ddyletswydd bob amser i oruchwylio'r bobl a sicrhau eu bod yn ddiogel rhag niwed. | Newydd |
| 21 | Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau bod y gwasanaeth yn ymatebol ac yn rhagweithiol wrth nodi, ymateb i risgiau a'u lliniaru. Mae angen gwneud gwelliannau i ddogfennaeth gofal, asesiadau risg, a threfniadau monitro a goruchwylio'r tîm rheoli, er mwyn sicrhau y darperir gofal a chymorth mewn ffordd sy'n amddiffyn ac yn cynnal diogelwch a llesiant y bobl. | Heb Gyflawni |
| 80 | Nid yw'r adroddiad ar yr adolygiad o ansawdd y gofal yn cynnwys tystiolaeth bod yr Unigolyn Cyfrifol wedi cael adborth gan y bobl ar eu profiadau o fyw yn y gwasanaeth, ynghyd ag adborth gan berthnasau a gweithwyr proffesiynol. Nid yw'r adroddiad yn cydymffurfio â'r hyn sy'n ofynnol yn unol â'r rheoliad. Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod trefniadau addas ar waith i sefydlu a chynnal systemau ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth, gan gynnwys adborth gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill. | Heb Gyflawni |
| 66 | Nid yw'r systemau ar gyfer sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i oruchwylio'r broses o reoli cwympiadau, ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd yn ddigonol. Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod prosesau digonol ar waith i oruchwylio'r gwasanaeth yn briodol. | Heb Gyflawni |
| 60 | Mae'r darparwr wedi methu â rhoi gwybod i AGC am rai digwyddiadau fel sy'n ofynnol yn y rheoliadau. Rhaid rhoi gwybod am ddigwyddiadau hysbysadwy i | Heb Gyflawni |

| | | |
|---|---|---|
| | AGC o fewn yr amserlen ofynnol. | |
| 57 | Nid oes gan ddarparwr y gwasanaeth ddull rhagweithiol o sicrhau diogelwch y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rhaid i'r darparwr sicrhau y caiff risgiau diangen i iechyd a diogelwch y bobl eu nodi a'u dileu. | Heb Gyflawni |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 35 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod tystysgrifau newydd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael eu cyhoeddi o fewn yr amserlen o dair blynedd. Rhaid i'r darparwr sicrhau bod systemau ar waith i nodi pan fydd tystysgrif aelod o staff gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar fin dod i ben fel y gellir cymryd camau priodol. | Newydd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 19/01/2024